NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Roflumilast ar gyfer trin clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint

26 Gorffennaf 2017

Mae roflumilast (Daxas) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer clefyd rhwystrol cronig difrifol yr ysgyfaint mewn oedolion sydd â broncitis cronig, os yw'r canlynol yn gymwys:

- mae symptomau wedi gwaethygu'n sydyn o leiaf 2 waith dros y 12 mis diwethaf ac
- mae anadlyddion yn cael eu defnyddio (yn cynnwys anadlydd gwrthfysgarinig hirweithredol, anadlydd gweithydd beta-2 hirweithredol ac anadlydd corticosteroid).

Mae roflumilast yn driniaeth ychwanegol, i'w chymryd yn ogystal â'r anadlyddion. Mae'n rhaid i arbenigwr mewn meddyginiaeth anadlol ddechrau'r driniaeth.

Os nad ydych yn gymwys i gael roflumilast, ond rydych eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliad hwn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 03000 030 555

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2610-7

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights